# Papur Testun 18: Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr





CYNGOR SIR YNYS MON ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Cefndir**

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol ar Sipiwn a Theithwyr. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Mae'r CDLl ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Fe ellir cyfeirio tuag at y Papur Testun fel sail i unrhyw sylwadau ar y Cynllun Adnau. Fodd bynnag fe ddylid sylweddoli mae dim ond sylwadau ar y Cynllun Adnau fydd yn cael ei ystyried gan yr Arolygydd yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun yn hytrach na sylwadau penodol ar y Papur Testun.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen trafod unrhyw rhan o'r Papurau Testun neu Papurau Cefndir efo aelod o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fe ellwch gysylltu efo ni ar e-bost i neu'n ysgrifenedig at:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| Cyhoeddiad: Fersiwn 1 | Chwefror 2015 |

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyd-destun** | |
| **2.0** | **Methodoleg Asesu Safleoedd** | |
| | | |
| **Atodiadau** | | |
| **Atodiad 1** | **MAPIAU O'R ARDALOEDD CHWILIO DANGOSOL** | |
| **Atodiad 2** | **LLEOLIADAU GWERSYLLOEDD SIPSIWN A THEITHWYR ANAWDURDODEDIG** | |
| **Atodiad 3** | **NIFER Y CARAFANAU AR SAFLEOEDD AWDURODEDIG AC ANAWDURDODEDIG YR ADRODDIR ARNYNT MEWN CYFRIFIADAU CARAFANAU SIPSIWN A THEITHWYR CHWE-MISOL DWYIEITHOG 2013-2014** | |
| **Atodiad 4** | **LLYFRYDDIAETH** | |
| **Atodiad 5** | **DIFFINIAD O SIPSIWN A THEITHWYR** | |


## 1.0 Cyd-destun

- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr os gwelwyd bod angen rhai
- Fe wnaeth Cylchlythyr 30/07 Llywodraeth Cymru Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr atgyfnerthu'r gofyn bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd priodol yn eu cynlluniau lleol
- Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yn datgan fframwaith polisi ar gyfer Cynghorau
- Gwyddys am achosion o wersylloedd anawdurdodedig yn ardal y Cynllun (Atodiad 2 a 3)
- Mae tystiolaeth yn awgrymu y ceir angen am safleoedd parhaol a dros dro i Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau priodol yn ardal y Cynllun.

1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 (2014) (PCC) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn cyfarwyddo ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (mae para 9.2.21 yn cyfeirio at hyn) ac yn nodi ei bod yn bwysig bod polisïau ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol.

1.2 Mae tystiolaeth o Gyfrifiad 2011 yn adlewyrchu gwaith ymchwil blaenorol sydd wedi amcangyfrif bod rhwng hanner i dri chwarter y Sipsiwn neu'r teithwyr Gwyddelig yn byw mewn llety brics a morter. Y rhesymau a awgrymir ar gyfer hyn yw'r diffyg safleoedd carafanau sydd ar gael a safleoedd sydd â mynediad at yr amwynderau a'r gwasanaethau sydd eu hangen. Yng Nghyfrifiad 2011, byngalo neu dŷ cyfan oedd y math mwyaf cyffredin o lety ar gyfer ymatebwyr a nododd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, sef 61% o'i gymharu ag 84% ar gyfer yr holl breswylwyr arferol

yng Nghymru a Lloegr. Roedd carafán neu adeiledd symudol neu dros dro arall i gyfrif am 24% o lety Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, ffigur sy'n llawer uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan (0.3%).

1.3 Mae dealltwriaeth o broblemau llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddefnyddiol er mwyn gwneud darpariaeth sydd wedi'i chynllunio'n briodol ac i osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ad hoc neu anawdurdodedig.

1.4 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr dan Adrannau 225 a 226 o Ddeddf Tai 2004. Pan geir asesiad bod angen heb ei ddiwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal dylai'r Cyngor ddynodi digon o safleoedd mewn cynlluniau datblygu lleol i sicrhau y gellir bodloni'r gofyn am leiniau a welwyd at ddefnydd preswyl a thramwy.

1.5 Yn unol â Deddf Tai 2004, cafodd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru a Sir y Fflint (GTANA) (2011) ei gynnal ar gyfer holl awdurdodau cynllunio lleol Gogledd Cymru ar wahân i Wrecsam (a oedd wedi cynnal astudiaeth ar wahân).

1.6 Mae canfyddiadau'r GTANA yn dangos bod gofyn am 11 o leiniau preswyl parhaol yn lle'r safle presennol a oddefir ger Pentraeth, Ynys Môn ynghyd â gofyn am 10 o leiniau preswyl parhaol ychwanegol yng Ngwynedd. Mae'r GTANA wedi cyfrifo bod 28 o leiniau 'tramwy' yn ofynnol yng Ngogledd Cymru i'w rhannu rhwng yr Awdurdodau Lleol. Nid oes unrhyw safleoedd tramwy awdurdodedig yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Gall lleiniau 'tramwy' naill ai fod ar safleoedd ffurfiol sy'n debyg i safleoedd preswyl parhaol ond ni all y deiliad ond aros am hyd at 3 mis. Fel arall gellir eu lletya mewn mannau aros dros dro. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i nodi safleoedd preswyl parhaol i Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal â safle tramwy ffurfiol.

1.7 Ar hyn o bryd, mae un safle preswyl awdurdodedig i Sipsiwn sy'n eiddo i'r awdurdod lleol i'w gael yn Llandygai, ger Bangor gyda lle i 7 llain. Ceir hefyd safle a oddefir i Deithwyr ger Pentraeth, lle mae 11 o garafanau wedi'u lleoli. Ystyrir nad yw'r amodau byw yn y safle hwn yn foddhaol ac y dylid felly eu symud i safle mwy priodol.

1.8 Caiff Asesiad arddull Cyfrifiad newydd o Letyau Sipsiwn a Theithwyr ei gynnal yn dilyn pasio Deddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i'r asesiad gael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r Asesiad arddull Cyfrifiad newydd o Letyau Sipsiwn a Theithwyr a'r system newydd arfaethedig ar gyfer cynnal Cyfrif o Garafanau Sipsiwn a Theithwyr yn darparu sail fwy cadarn ar gyfer cyfrifo'r angen am lety ymysg Sipsiwn a Theithwyr yn Ardal y Cynllun o'i gymharu â'r GTANA presennol.

1.9 Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a gyhoeddwyd yn y GTANA, ystyrir y bydd angen polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd Adnau er mwyn diogelu Safleoedd presennol Sipsiwn a Theithwyr a safleoedd i'r dyfodol rhag newidiadau mewn defnydd i ddefnyddiau amgen tra bod angen yn parhau i fod am safleoedd fel y dangosir yn yr Asesiad diweddaraf o Anghenion Sipsiwn-Teithwyr. Bydd polisïau seiliedig ar feini prawf hefyd yn ofynnol i wneud darpariaeth ar gyfer angen ychwanegol sy'n codi yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y polisi seiliedig ar feini prawf arfaethedig ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol newydd yn cael ei fframio gan ystyried y canllawiau arferion da sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

1.10 Er y disgwylir y dylai cynigion penodol i safle gael eu nodi yn y CDLl ar y Cyd Adnau er mwyn bodloni'r diffyg darpariaeth a nodir yn y GTANA presennol, dim ond un safle, sef estyniad i'r safle presennol yn Llandegai i ddarparu 5 o leiniau ychwanegol sy'n debygol o gael ei ddangos ar y Map Cynigion. Mae hyn yn golygu y ceir ar hyn o bryd brinder o 5 llain breswyl barhaol yng Ngwynedd o hyd ynghyd ag 11 o leiniau ar Ynys Môn. Mae angen i'r Cyngor nodi safleoedd pellach ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i fodloni'r angen a nodwyd am leiniau preswyl parhaol, yn ogystal â safleoedd i gynnwys mannau aros dros dro i fodloni natur defnydd tramwy yn Ardal y Cynllun.

1.11 Defnyddir y Fethodoleg Asesu Safleoedd canlynol i lunio Rhestr Derfynol o Safleoedd gyda'r potensial i'w defnyddio fel Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Ar ôl cwblhau asesiad manwl, bydd gweithgor o swyddogion a rhanddeiliaid allweddol yn ystyried y safleoedd a gynhwysir ar restr fer er mwyn cyflwyno rhestr derfynol o safleoedd addas i ymgynghori arni. Rhagwelir y bydd y gwaith o ddewis y safleoedd gofynnol yn cael ei gwblhau cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 2.0 Methodoleg Asesu Safleoedd

2.1 Yn ôl y "Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru" (Llywodraeth Cymru, 2009), wrth ddyrannu safleoedd preswyl ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod safleoedd yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Er mwyn canfod y safleoedd mwyaf priodol, bydd pob safle posibl yn mynd drwy broses asesu, sydd mewn pum cam:

**1) Nodi Ffynonellau Data**
↓
**2) Pennu Ardal Chwilio**
↓
**3) Proses gychwynnol Hidlo Safleoedd**
↓
**4) Asesiad Manwl o Safleoedd**
↓
**5) Rhestr Derfynol o Safleoedd**

### 1) Nodi Ffynonellau Data

2.2 At ddibenion yr asesiad hwn nodwyd pedair ffynhonnell ddata sef:

a) Tir dan berchnogaeth Gyhoeddus – gan ddefnyddio i'r eithaf unrhyw gofrestri o dir dan berchnogaeth gyhoeddus sy'n wag neu nas defnyddir yn ddigonol.

b) Safleoedd Posibl y Cynllun Datblygu Lleol - fel rhan o broses y CDLl ar y Cyd mae'n ddyletswydd ar y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol i nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau megis tai, cyflogaeth a mannau agored. Ym mis Hydref 2011 agorwyd Cofrestr o Safleoedd Posibl yn ffurfiol pan wahoddwyd rhanddeiliaid, perchnogion tir a phartïon eraill â diddordeb i gyflwyno tir gyda'r posibilrwydd o'i gynnwys yn y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad i'r alwad am safleoedd cyflwynwyd dros 800 o safleoedd ar gyfer amrywiol ddefnyddiau gwahanol. Ni chyflwynwyd dim safleoedd i'w hystyried yn benodol fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond mae gan lawer y potensial i ddarparu ar gyfer y defnydd hwn. Cysylltir â

pherchnogion unrhyw safleoedd yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i gael gwybod a yw’r safle ar gael ar gyfer y defnydd hwn.

c) Staff Awdurdodau Lleol – Cynhelir trafodaethau gyda staff yr awdurdodau lleol i ganfod safleoedd addas posibl eraill yn ardal y CDLl ar y Cyd.

d) Gwersylloedd Anawdurdodedig Hanesyddol – rhoddir ystyriaeth i wersylloedd anawdurdodedig lle gwyddys bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr wedi aros yn y gorffennol (Atodiad 2 Lleoliadau Gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr anawdurdodedig (Gwynedd 2007-10)(Ynys Môn 2009-10).

2.3 Fe wnaeth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) gynnal ymarferiad Galwad am Safleoedd i helpu i nodi safleoedd y gellid eu hystyried i'w cynnwys yn y CDLl ar y Cyd. Cynhaliwyd ymarferiad yr Alwad am Safleoedd dros gyfnod o chwe wythnos, rhwng 4 Rhagfyr 2013 a 17 Ionawr 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, tirfeddianwyr, sefydliadau neu unrhyw un arall eu gwahodd i awgrymu safleoedd wrth y Cynghorau. Dau safle’n unig a gyflwynwyd o ganlyniad i’r ymarferiad hwn, ac roedd y ddau ohonynt wedi eu lleoli y tu allan i Ardal y Cynllun ond o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae’r UPCC wedi derbyn cadarnhad gan Barc Cenedlaethol Eryri nad oedd yr un o’r safleoedd hyn yn addas.

**2) Pennu Ardal Chwilio**

2.4 I hwyluso’r broses o ganfod safleoedd, mae angen cyfyngu’r ardaloedd chwilio posibl er mwyn gallu canfod safleoedd addas a chynaliadwy’n fwy effeithlon.

2.5 Mae’r Canllaw Arfer Da yn nodi, wrth ystyried ble i leoli safle newydd, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol leoli safleoedd, gan gynnwys safleoedd tramwy, mewn lleoliadau sy’n bodloni patrymau gweithio presennol Sipsiwn a Theithwyr, ac sy’n agos i gysylltiadau trafnidiaeth. Mae’r canllaw hefyd yn datgan, wrth nodi safleoedd parhaol a safleoedd tramwy y dylai awdurdodau lleol ystyried lleoliadau ger aneddiadau sy’n bodoli eisoes sydd â mynediad i wasanaethau lleol, cyfleusterau cymunedol ac sy’n hygyrch i gludiant cyhoeddus.

2.6 Gan roi ystyriaeth i’r uchod, bydd yr ardaloedd chwilio am safleoedd parhaol yn canolbwyntio ar yr aneddiadau sydd â mynediad at y tri phrif wasanaeth (ysgol, meddyg a siop fwyd) ac sydd o fewn oddeutu 2km i brif lwybr trafnidiaeth. Ar Ynys Môn, bydd yr ardal chwilio’n canolbwyntio ar hyd yr A5 a’r A55, ac yng Ngwynedd ar hyd yr A55, A470, A487 a’r A494. Bydd yr UPCC yn trafod safleoedd addas posibl o fewn y Parc Cenedlaethol gyda Swyddogion y Parc Cenedlaethol. Bydd safleoedd aros dros dro yn canolbwyntio ar ardaloedd o fewn oddeutu 2km i’r prif lwybrau trafnidiaeth a’u cyffyrdd.

2.7 Gwelwyd bod yr aneddiadau canlynol yn cydymffurfio â’r meini prawf uchod:

| Ynys Môn | Gwynedd |
|---|---|
| Bodedern | Bangor |
| Gaerwen | Bethesda |
| Gwalchmai | Caernarfon |
| Caergybi | Penygroes |
| Llanfairpwll | Penrhyndeudraeth |
| Llangefni | Porthmadog |
| Porthaethwy | Y Felinheli |
| Fali | |

Mae mapiau o'r ardaloedd chwilio dangosol i'w gweld yn Atodiad 1.

### 3) Proses Gychwynnol Hidlo Safleoedd

2.8 Bydd y broses gychwynnol o hidlo safleoedd yn ystyried ei leoliad cyffredinol, ardal y safle, unrhyw gyfyngiadau pwysig ar ddatblygu ynghyd â hanes cynllunio'r safle. Dywed y canllaw, os ystyrir bod lleoliad yn amhriodol at ddefnydd preswyl yna ni ddylid ystyried ei fod yn briodol fel safle i Sipsiwn a Theithwyr.

2.9 Nid oes unrhyw ganllawiau pendant ar faint lleiniau unigol, ond mae'r canllawiau'n nodi y dylai'r safleoedd gael eu hystyried yn eu cyd-destun ac mewn perthynas â'r seilwaith lleol a maint a dwysedd y boblogaeth er mwyn sicrhau nad ydynt yn fwy na'r cymunedau sefydlog lleol. At ddibenion yr asesiad hwn, bydd trothwy isaf o 0.3ha yn cael ei ddefnyddio ar gyfer safleoedd parhaol. Bydd safleoedd aros dros dro yn canolbwyntio ar safleoedd addas ar hyd neu ger y prif goridorau ffyrdd (mae map o'r prif goridorau ffyrdd i'w weld yn Atodiad 2).

2.10 Ni fydd safleoedd yr ystyrir eu bod yn gwbl afrealistig i'w datblygu, nad ydynt yn cydymffurfio â pholisïau lleol neu genedlaethol neu sydd â chyfyngiadau sylfaenol na ellir eu goresgyn na'u lliniaru yn cael eu bwrw ymlaen i gam nesaf yr asesiad.

2.11 Bydd y cam hwn o'r asesiad yn diystyru safleoedd os safant mewn unrhyw rai o'r dynodiadau canlynol neu os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol arnynt:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR)
- Parthau Llifogydd C1 ac C2 (TAN15)
- Safleoedd Diogelu Mwynau a Glo
- Safleoedd Treftadaeth y Byd (WHS)

### 4) Asesiad Manwl o Safleoedd

2.12 Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, bydd angen cynnal asesiad bwrdd gwaith, penodol i safle, drwy GIS. Pryd bynnag y bo hynny'n angenrheidiol, trefnir ymweliadau safle hefyd. Rhennir y gwerthusiad i'r meysydd canlynol:-

- **Hygyrchedd** – gan ystyried addasrwydd mynediad i gerbydau i'r safle, lleoliad y safle o safbwynt llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd ar droed neu feic at amrywiol gyfleusterau cymunedol.
- **Cyfalaf Amgylcheddol** – gan ystyried a yw'r safle mewn perygl o lifogydd ai peidio, a fyddai unrhyw dir amaethyddiaeth gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei golli, a yw'r safle'n safle tir llwyd ynteu'n safle tir glas, a oes risg bosibl o dir llygredig, a yw'n cael ei warchod gan ddynodiadau amgylcheddol ai peidio, a ystyrir bod iddo werth amgylcheddol.
- **Cyd-destun a Chymeriad y Safle** – a allai nodweddion topograffig y safle fod yn rhwystr rhag datblygu, a fyddai datblygu'n cael effaith ar olygfeydd/gorwelion, a yw'r safle'n agos i seilwaith presennol ac a fyddai yna o bosibl effaith niweidiol o ddefnyddiau tir cyfagos.
- **Dilyniant ac Amgaead** – a fyddai datblygu'r safle'n rhoi dilyniant ac amgaead o safbwynt defnyddiau tir cyfagos.

- **Lliniaru effeithiau Newid Hinsawdd** – a fyddai'r cynnig yn agored i effeithiau newid hinsawdd gan gynnwys ystyriaethau llifogydd neu ddraeniau, a fyddai'r datblygiad yn gallu cynnwys ffynonellau ynni adnewyddadwy neu fesurau arbed ynni.

2.13 Rhaid cynnal asesiad o effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd pob safle a ystyrir fel opsiynau ar gyfer dyrannu safle yn y CDLl ar y Cyd yn unol â gofynion gwerthusiadau cynaliadwyedd.

2.14 Mae'r CDLl ar y Cyd yn cynnwys cyfres o Amcanion Cynaliadwyedd fydd yn sicrhau bod y CDLl ar y Cyd yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Asesir pob safle yn erbyn y fframwaith hwn gan ddefnyddio'r tabl isod:

| ALLWEDD GWERTHUSIADAU AMGYLCHEDDOL | |
|---|---|
| | Caiff y datblygiad ei annog i ddatrys problem sy'n bodoli eisoes o safbwynt cynaliadwyedd |
| | Dim cyfyngiadau o ran cynaliadwyedd a'r datblygiad yn dderbyniol |
| | Niwtral |
| | Nid yw'r effaith yn hysbys |
| | Problemau cynaliadwyedd posibl; lliniaru a/neu negodi'n bosibl |
| | Problemus ac annhebygol oherwydd problemau cynaliadwyedd hysbys; lliniaru a/neu negodi'n anodd a/neu'n ddrud |
| | Cyfyngiadau llwyr o ran cynaliadwyedd ar y datblygiad |

**5) Rhestr Derfynol o Safleoedd**


2.15 Ar ôl cwblhau asesiad manwl, bydd gweithgor o swyddogion a rhanddeiliaid allweddol yn ystyried y safleoedd a gynhwysir ar restr fer er mwyn cyflwyno rhestr derfynol o safleoedd addas i ymgynghori arni.

2.16 Bydd y dystiolaeth y cyfeirir ati yn y papur testun hwn yn cael ei defnyddio i ategu'r polisïau a'r cynigion arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau.


**Atodiad 1**

**<u>ARDALOEDD CHWILIO DANGOSOL</u>**


Bodedern





Gaerwen




Gwalchmai





Holyhead




Llanfairpwll a  Porthaethwy





Llangefni




Y Fali





Bangor




Bethesda





Caernarfon




Penrhyndeudraeth





Penygroes



Porthmadog





Y Felinheli



**Atodiad 2**

## Lleoliadau Gwersyllau Sipsiwn a Theithwyr Heb Awdurdod
## Locations of Unauthorised Gypsy and Traveller Encampments
(Gwynedd 2007-2010; Anglesey/Ynys Môn 2009-2010)





© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

**Atodiad 3**

**NIFER Y CARAFANAU AR SAFLEOEDD AWDURODEDIG AC ANAWDURDODEDIG YR ADRODDIR ARNYNT MEWN CYFRIFIADAU CARAFANAU SIPSIWN A THEITHWYR CHWE-MISOL DWYIEITHOG 2013-2014**

| | Ionawr 2013 | | Gorffennaf 2013 | | Ionawr 2014 | | Gorffennaf 2014 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safleoedd Awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio ) | Safleoedd Anawdurdodedig (heb ganiatâd cynllunio) . | Safleoedd Awdurdodedig ( gyda chaniatâd cynllunio ) . | Safleoedd Anawdurdodedig (heb ganiatâd cynllunio) . | Safleoedd Awdurdodedig ( gyda chaniatâd cynllunio ) . | Safleoedd Anawdurdodedig (heb ganiatâd cynllunio) . | Safleoedd Awdurdodedig ( gyda chaniatâd cynllunio ) . | Safleoedd Anawdurdodedig (heb ganiatâd cynllunio) . |
| Ynys Môn | 0 | 11 | 0 | 39 | 0 | 12 | 0 | 32 |
| Gwynedd | 13 | 0 | 10 | 12 | 10 | 0 | 10 | 3 |

*Ffynhonnell SDR 154/2014 Llywodraeth Cymru*

**Atodiad 4**

**LLYFRYDDIAETH**


| | |
|---|---|
| Cylchlythyr Llywodraeth Cymru (2007) | 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr |
| Llywodraeth Cymru (2009) | Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru |
| Llywodraeth Cymru (2009) | Canllaw Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru |
| Llywodraeth Cymru (2013) | 'Teithio at Ddyfodol Gwell' - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Tachwedd 2013 diweddariad |
| Llywodraeth Cymru (2014) | Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Ymgynghoriad Drafft |
| Llywodraeth | Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru - Ymgynghoriad Drafft |

| | |
|---|---|
| Cymru (2014) | |
| Llywodraeth Cymru (2014) | Canllaw Arfer Da o ran Rheoli Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru - Ymgynghoriad Drafft |
| Hirst D and Crew T (2013) | Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru Assessmenthttp://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/563/GTANA_Report_English.pdf<br><br>http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/563/GTANA_Report_CYMRAEG.pdf |
| Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru (2014) | SDR (154/2014) Cyfrif Sipsiwn a Theithwyr Gorffennaf 2014 |
| ONS Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) | Beth ddywed Cyfrifiad 2011 wrthym am Nodweddion Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru a Lloegr? |

**Atodiad 5**

**DIFFINIAD O SIPSIWN A THEITHWYR (ADRAN 91 O DDEDDF TAI CYMRU 2014)**

Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys-

(i) (i) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a (ii) Aelodau o grŵp trefnedig o siwemyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a

(ii) Aelodau o grŵp trefnedig o siwemyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a

(iii) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol